**Dilynwch yr arwyddion**

www.cycleswansebay.org.uk

## Llinell Clun

**Pellter: 9.5 milltir**

Llwybr hyfryd o dref wledig Pontarddulais yn y gogledd trwy Pengelli a Gorseinon i Dregŵyr.

Mae hwn yn gymysgedd o lwybrau ar y ffordd ac oddi ar y ffordd.

## Cyswllt Sgiwen

**Pellter: 2 filltir**

Llinell gyswllt fer o Goed Darcy i Gastell-nedd, trwy Sgiwen.

Mae'r llwybr hwn ar y ffordd ac yn darparu cyswllt i'r Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm, Llinell Cwm Nedd a'r Llwybr Oren.

## Afan

**Pellter: 8.5 milltir**

Llwybr cyflym yw hwn sy'n mynd trwy gefn gwlad Cwm Afan. Mae'n darparu cyswllt hanfodol rhwng cymunedau'r cwm a Phort Talbot, gan gysylltu Aberafan â Pharc Coedwig Afan a phentrefi eraill.


Mae'r rhan fwyaf o'r llwybr hwn oddi ar y ffordd, gan ei wneud yn ddelfrydol ar gyfer defnyddwyr o bob gallu.

## Cyswllt Bryncoch

**Pellter: 6 milltir**

Llwybr sy'n bennaf ar y ffordd ac sy'n cysylltu Castell-nedd â Phontardawe trwy Bryncoch.

Mae'r cyswllt i Linell Cwm Nedd a Llwybr Cwm Tawe yn caniatáu cymudo i leoliadau yn y ddau gwm.




**Map Beicio**



Llinell Clun



Rhaeadr Dulais

## Cwm Nedd

**Pellter: 16 Milltir**

Yn dechrau wrth y mynediad i lwybrau cerdded hardd y rhaeadrau.

Mae'r llwybr cymudwyr hwn yn cysylltu Glyn-nedd â Chastell-nedd a thu hwnt i'r arfordir.

Yn bennaf mae ar y ffordd; fodd bynnag mae mesurau tawelu traffig a mesurau rhybudd ymlaen llaw yn bodoli ar rannau o'r llwybr.

Mae llwybr amgen ar hyd Camlas Nedd o Gastell-nedd i Lansawel, sy'n osgoi'r A474 i feiciau ffordd.



Afan Argoed



Cofeb Richard Burton

## Cregyn Cocos

**Pellter: 2.5 milltir**

Llwybr sy'n mynd ar hyd corsydd halen gogledd Gŵyr, ac sy'n darparu llwybr o Benclawdd i Dregŵyr gydag adrannau oddi ar y ffordd ac ar y ffordd da.

## Cwm Dulais

**Pellter: 7 milltir**

Mae'r llwybr hwn yn bennaf ar ffyrdd tawel, ac mae'n darparu cyswllt o Flaendulais i Aberdulais ac mae'n cysylltu â Llinell Cwm Nedd.

Swansea Bay Cycle Route
Llwybr Beicio Bae Abertawe

Croeso i Lwybrau Beicio i Gymudwyr Bae Abertawe. Y llwybrau wedi'u harwyddo hyn yw'r llwybrau mwyaf uniongyrchol a gwastad rhwng cymunedau sy'n addas ar gyfer pob math o feic.

Am fwy o wybodaeth ac i weld ein map rhyngweithiol, pam na ewch i'n gwefan.

greener@npt.gov.uk

www.cycleswansebay.org.uk

## Canolog

**Pellter: 22 milltir**

Llwybr gwastad hyfryd sy'n mynd o amgylch Bae cyfan Abertawe.

Llwybr sy'n bennaf oddi ar y ffordd sy'n addas ar gyfer pob defnyddiwr o unrhyw allu.

Byddwch yn synnu pa mor hawdd yw hi i deithio rhwng canol trefi.

## Cyffordd Bonymaen

**Pellter: 0.5 milltir**

Cyswllt oddi ar y ffordd bach ond hanfodol sy'n darparu mynediad uniongyrchol o Fonymaen i Barc Menter Abertawe a llwybr Cwm Tawe.

## Cwm Tawe

**Pellter: 18 milltir**

Dilynwch hen gamlesi, rheilffyrdd a llwybrau afonydd Cwm Tawe i ddarganfod ei orffennol diwydiannol a'i adfywiad presennol.

Llwybr cyflym oddi ar y ffordd sy'n darparu cyswllt gwych trwy Gwm hardd Tawe, gan osgoi'r holl fannau traffig trwm.

## Canol y Ddinas

**Pellter: 14 milltir**

Y llwybr mwyaf uniongyrchol o Ganol Dinas Abertawe i'r cymunedau yn y gogledd.

Mae'r llwybr hwn ar y ffordd rhan fwyaf.

## Milltir y Mwmbwls

**Pellter: 2.7 milltir**

Llwybr hyfryd ar hyd y traeth, yn dilyn llwybr hen Dram y Mwmbwls, sy'n cysylltu cymunedau Blackpill, West Cross a'r Mwmbwls.

Llwybr oddi ar y ffordd i ddefnyddwyr o bob gallu, yn cysylltu â'r llinell ganolog.



Glannau Aberafan



Parc Margam

## Trefansel

**Pellter: 2 filltir**

Llwybr hyfryd drwy gymunedau Brynhyfryd, Trefansel a'r Hafod sy'n cysylltu'n uniongyrchol â chanol y ddinas.

Mae gan y llwybr hwn gymysgedd o lonydd beicio a ffyrdd tawel sy'n osgoi nifer o lwybrau traffig prysur.



Cyswllt Clydach




Stadiwm Liberty

## Cyswllt ar draws y Cwm

**Pellter: 7 milltir**

Mae'r prif lwybr hwn o'r dwyrain i'r gorllewin yn gorwedd i'r gogledd o Fae Abertawe ac yn cysylltu nifer o gymunedau preswyl.

Cymysgedd o lwybrau ar y ffordd ac oddi ar y ffordd.



Glannau'r Mwmbwls



Goleudy Bae Bracelet